

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Cynllun Datblygu Lleol



## Adroddiad Monitro Blynyddol

**1<sup>af</sup> Ebrill 2017 – 31<sup>ain</sup> Mawrth 2018**

## **Cyflwyniad**

Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol Iunio a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol erbyn 31ain Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r adroddiad yn sylfaenol i'r broses o asesu cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol gyda gweithredu'r polisiau yn y Cynllun ac mae'n rhoi cyfle i Awdurdod y Parc Cenedlaethol asesu'r Polisiau yn erbyn yr wybodaeth fwyaf cyfredol sydd ar gael. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd yn cynnwys canlyniadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd yn ogystal â monitro Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Atodiadau 2 a 3).

Gall yr ymarfer monitro gynorthwyo Awdurdod y Parc Cenedlaethol gyda'r canlynol:-

- Nodi lle nad yw rhai polisiau'n llwyddo i gyflawni'r amcanion a bennwyd ganddynt;
- Nodi'r bylchau yn y sail tystiolaeth, efallai oherwydd newid yn yr economi, y mae angen rhoi sylw iddynt a'u hadlewyrchu yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- Nodi'r meysydd llwyddiannus y gellid eu defnyddio fel esiamplau ar gyfer newid drwy'r Cynllun Datblygu Lleol cyfan;
- Nodi'r camau y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn bwriadu eu cymryd i unioni unrhyw broblemau a sicrhau bod y polisi, neu unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol, yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi llunio cyfres o dargedau a dangosyddion sy'n gweithredu fel meincnod i'w ddefnyddio i fesur perfformiad yn ei erbyn. Gall y targedau ymwneud â chyflawni lefelau penodol o ddatblygiad a gellir eu pennu bob blwyddyn neu ar adegau penodol yn ystod oes y Cynllun. Y targed ar gyfer y Cynllun yn ei gyfanrwydd yw sicrhau y caiff Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ei rhoi ar waith.

Mae'r dangosyddion a'r targedau sydd wedi'u datgan yn y Fframwaith Monitro hefyd yn gweithredu fel sbardunau i dynnu sylw at unrhyw ran o'r Cynllun nad yw'n cyflawni'r amcanion a bennwyd. Os 'gweithredir' y sbardunau hyn, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried pa gamau y bydd angen eu cymryd o ganlyniad. Ceir nifer o ganlyniadau y gallai Awdurdod y Parc Cenedlaethol eu rhoi ar waith yn yr achosion hyn; bydd y rhain yn dibynnu ar i ba raddau y mae'n ymddangos nad yw'r targed wedi'i gyrraedd a pha mor dyngedfennol yw'r datblygiad i'r gwaith o weithredu Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Defnyddir dangosyddion cyd-destunol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd, i werthuso ai'r Cynllun sy'n gyfrifol am fethu cyrraedd y targedau ynteu a oes ffactorau allanol (fel yr economi neu newidiadau mewn ffynonellau cyllido ac ati) yn cyfrannu at hynny, ffactorau na all y system gyllunio eu rheoli.

Mae'r dewisiadau a ganlyn ar gael i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yng nghyswllt pob un o'r dangosyddion a'u sbardunau. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa yn achos pob dangosydd ac yn argymhell ymateb priodol:

- Parhau i Fonitro
- Angen Hyfforddi Swyddogion/Aelodau
- Angen Canllawiau Cynllunio Atodol/Briffiau Datblygu
- Ymchwil Polisi
- Adolygu Polisi
- Adolygu Cynllun/Strategaeth

Fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd hefyd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r safleoedd a ddyrannwyd. Bydd hyn yn dangos y gwaith a aeth rhagddo

ar y safle mewn unrhyw flwyddyn benodol, gan gynnwys paratoi astudiaethau neu gynnydd y datblygiad. Os nad yw safle'n cael ei ddatblygu yn ôl y disgwyl, caiff hyn ei ddehongli fel sbardun a bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cymryd y camau priodol (gweler uchod) os bydd angen.

### **Crynodeb Gweithredol**

Dywed cyfarwydddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ei bod yn ofynnol monitro'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sydd ynghlwm wrth roi cynllun ar waith, er mwyn gallu rhoi camau adfer priodol ar waith os oes angen. Nid yw Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar yr amcanion; fodd bynnag, nodwyd effeithiau cadarnhaol sylweddol y mae angen eu monitro.

Hefyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r safleoedd a ddyrannwyd. Mae hyn yn tynnu sylw at y gweithgarwch sydd wedi'i wneud ar y safle mewn unrhyw flwyddyn benodol, gan gynnwys paratoi astudiaethau neu gynnydd y datblygiad. Nodir fod 10 safle tai a ddyrannwyd ar gyfer y cyfnod cyntaf o 5 mlynedd wedi cael eu datblygu i'r cam cais cynllunio, gyda 5 datblygwr wedi dechrau datblygu ar y safleoedd. Mae'r swyddogion wedi ysgrifennu at berchnogion tir i roi gwybod iddynt y gall methu datblygu'r safleoedd hyn drwy'r system gynllunio arwain at ddad-dyrannu yn ystod y cam Adolygu. Wrth reswm, mae llai o weithgarwch wedi bod mewn perthynas â safleoedd diweddarach, gyda 7 yn cael eu datblygu i gam ymgeisio – a 4 o'r rhain wedi cael caniatâd. Mae'r swyddogion yn bwriadu cysylltu â'r perchnogion tir er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghyd ag amserlen debygol ar gyfer datblygu'r safle drwy'r broses gynllunio. O edrych ar y safleoedd defnydd cymysg sydd wedi'u dyrannu, mae tri Briff Datblygu wedi'u mabwysiadu ac mae un briff yn y cam ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd.

Cwblhawyd gofynion nifer o'r dangosyddion strategol a'r dangosyddion polisi yn ystod cyfnod monitro cyntaf y Cynllun Datblygu Lleol, sef y rhai'n ymwneud â meddiannu'r safle a ddyrannwyd i Sipsiwn a Theithwyr a datblygu nifer o nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol. Yn ystod yr ail gyfnod, argymhellwyd dod â'r monitro i ben mewn perthynas â nifer o'r ceisiadau ar gyfer datblygiadau mwy nad ydynt yn darparu 20% o'u hynni o adnoddau carbon isel neu ddim carbon.

Er hyn, byddwn yn parhau i fonitro mwyafrif helaeth y dangosyddion strategol a'r dangosyddion polisi, sy'n ofynnol o dan Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, fel y nodir yn y tablau sydd wedi'u lliwio'n wyrdd a melyn isod. O blith y rhain, mae angen rhywfaint o waith ychwanegol ar ambell un, ar ffurf ymchwil polisi yn ogystal â hyfforddiant posibl i Swyddogion/Aelodau a Chanllawiau Cynllunio Atodol. Cafodd un dangosydd, yn ymwneud â chyflenwi tir ar gyfer tai, ei farcio'n goch o ganlyniad i'r cyflenwad yn gostwng o dan y marc 5 mlynedd (3.9). Er bod hyn yn peri pryder, sefydlodd yr Awdurdod Adolygiad ffurfiol o'r Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2017 o ganlyniad i'r ffaith bod 4 blynedd wedi mynd heibio ers ei Fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2013.

### **Monitro Cynaliadwyedd**

Dywed cyfarwydddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ei bod yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol arwyddocaol gweithredu cynllun gael eu monitro fel bod modd rhoi camau adfer priodol ar waith os oes angen.

Nid yw Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar yr amcanion; fodd bynnag, nodwyd effeithiau cadarnhaol sylweddol y mae angen eu monitro.

- Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd (SA1) a Lleihau Nwyon Tŷ Gwydr (SA2) mewn perthynas â Pholisïau SP4: 'Newid yn yr Hinsawdd' ac SP11: 'Dylunio Cynaliadwy';
- Adnoddau Dŵr (SA5) drwy'r polisi ar Ansawdd Dŵr (Polisi 10);

- Bioamrywiaeth (SA8) mewn perthynas ag SP1 Polisi'r Parc Cenedlaethol ac SP3 Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys y polisi ategol ar Fioamrywiaeth a Datblygu (Polisi 6);
- Treftadaeth Ddiwylliannol (SA9) mewn perthynas ag SP1 (Polisi'r Parc Cenedlaethol) ac SP3 Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys ei bolisi ategol ar Ardaloedd Gwerthusiad Archeolegol (Polisi 22).
- Tirwedd SA11 mewn perthynas ag SP1 (Polisi'r Parc Cenedlaethol) ac SP3 Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys ei bolisiau ategol ar Goed a Datblygiad (Polisi 8) a Llygredd Golau (Polisi 6)
- Adnoddau Naturiol a Seilwaith (SA12) drwy'r polisiau ar Ddylunio Cynaliadwy (SP11), Seilwaith Cynaliadwy (SP16), Gwastraff (SP6) ac Ailgylchu Mwynau (Polisi 67)
- Poblogaeth (SA14) mewn partneriaeth â Dosbarthiad Gofodol Datblygiadau (SP10), Polisi'r Parc Cenedlaethol (SP1) a pholisiau'n ymwneud â thai (SP5), tai fforddiadwy (SP6), lles economaidd (SP12) a Chymunedau Cynaliadwy (SP15); ac
- Economi (SA17) mewn perthynas â Pholisi'r Parc Cenedlaethol (SP1) a pholisiau'n ymwneud â Lles Economaidd (SP12) a Manwerthu (SP13).

Mae'r Fframwaith Monitro isod a fabwysiadwyd gan y Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi sylw i rai o ofynion monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)/Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Ceir dangosyddion ychwanegol yn yr AC i sicrhau y gellir monitro'r holl effeithiau arwyddocaol yn yr AC. Os yw'r rhain yn berthnasol, ac os oes data ar gael ar lefel y Parc Cenedlaethol, mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 2.

## Monitro Strategol

### Allwedd:

	<b>Cwblhawyd</b>
	<b>Parhau i Fonitro</b>
	<b>Ymchwil Polisi / CCA / Hyfforddiant Swyddogion ac Aelodau</b>
	<b>Rhoi'r Gorau i Fonitro</b>

## Darparu Tai

### Ffigur 1

Cynnal cyflenwad o dir am gyfnod o 5 mlynedd	
<b>Adolygu'r Cynllun</b>	<b>Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 (Atodiad 1) yr Awdurdod yn cadarnhau cyflenwad o dir am 3.9 blynedd.</b>
	<b>Trydydd Cyfnod Monitro (1<sup>af</sup> Ebrill 2016 tan 31<sup>ain</sup> Mawrth 2017)</b> Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 (Atodiad 1) yr Awdurdod yn cadarnhau <b>cyflenwad o dir am 4.8 blynedd.</b>
	<b>Ail Gyfnod Monitro (1<sup>af</sup> Ebrill 2015 tan 31<sup>ain</sup> Mawrth 2016)</b> Mae Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 (Atodiad 1) yr Awdurdod yn cadarnhau <b>cyflenwad o dir am 5.0 mlynedd.</b>
	<b>Cyfnod Monitro Cyntaf (17<sup>eg</sup> Rhagfyr 2013 tan 31<sup>ain</sup> Mawrth 2015):</b> Cyflenwad o dir am 5.8 mlynedd yn 2015 Cyflenwad o dir am 5.3 mlynedd yn 2014
	<b>Sylwadau:</b>

	<p>Cadwodd yr Awdurdod gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer y tair blynedd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, cofnododd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016-2017 ffigur o 4.8 blynedd – 0.2 blynedd yn is na'r 'trothwy' o 5 mlynedd.</p>
	<p>Cofnododd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017-2018 ffigur o 3.9 blynedd – 1.1 blynedd yn is na'r 'trothwy' o 5 mlynedd.</p>
	<p><b>Argymhelliad:</b>  Nid yw'r targed monitro blynyddol wedi'i gyrraedd. Er bod hyn yn bryder, sefydlodd yr Awdurdod Adolygiad ffurfiol o'r Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr gan fod 4 blynedd wedi mynd heibio ers ei Fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2013.</p> <p>Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro cyflenwad o dir yr Awdurdod ar gyfer tai drwy gyfrwng proses y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ochr yn ochr â'r Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.</p>

**Ffigur 2**

Nifer y caniatadau a ddyfarnwyd a'r anheddau a gwblhawyd yn flynyddol	
<b>Ymchwil Polisi</b>	<p><b>Pedwerydd Cyfnod Monitro</b>  Dyfarnwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 57 o anheddau newydd</p> <p>Cwblhawyd yn 2017-2018 = 203</p>
	<p><b>Trydydd Cyfnod Monitro</b>  Dyfarnwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 276 o anheddau newydd</p> <p>Cwblhawyd yn 2016-2017 = 52</p>
	<p><b>Ail Gyfnod Monitro</b>  Dyfarnwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 117 o anheddau newydd</p> <p>Cwblhawyd yn 2015-2016 = 58</p>
	<p><b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b>  Dyfarnwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 106 o anheddau newydd, a hefyd 64 a 45 a gwblhawyd ar gyfer 2013/14 a 2014/15 yn eu trefn.</p>
	<p><b>Sylw:</b>  Mae'r nifer a gwblhawyd yn uwch na'r nifer gofynnol yn flynyddol (174 (+/- 20%)) gyda 203 wedi'u cwblhau yn 2017-2018. Mae nifer yr anheddau sydd wedi cael caniatâd cynllunio wedi gostwng yn eithaf sylweddol ers astudiaeth 2016-2017.</p> <p>O ystyried yr ystod o ffigurau sydd wedi'u datgan uchod, mae'n rhesymol awgrymu y dylid ystyried amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn. Yn wir, mae ail ran y sbardun asesu'n gofyn am ddatblygu rhwng 696 a 1044 o anheddau erbyn 2017, sef ffigur a gynhyrchir dros amserlen hirach a fyddai'n cynrychioli dangosydd cadarnach o berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol.</p> <p>O ddechrau cyfnod y Cynllun (2007) hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018, cwblhawyd cyfanswm o 781. Felly mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.</p>

	<p>Argymhellwyd fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n berthnasol i'r ail gyfnod monitro bod y Swyddogion yn ymgymryd ag ymchwil cymharu gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill i ddarparu tai. Yma nodwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 ledled Cymru'n dangos bod 19 allan o'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol, ar 1 Ebrill 2017, yn methu dangos cyflenwad o dir ar gyfer tai am bum mlynedd.</li> <li>• Mae Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 ledled Cymru'n dangos bod 19 allan o'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol, ar 1 Ebrill 2016, yn methu dangos cyflenwad o dir ar gyfer tai am bum mlynedd.</li> <li>• O gymharu, roedd 17 Awdurdod Cynllunio Lleol yn methu dangos cyflenwad o dir ar gyfer tai am bum mlynedd yn 2015, ac roeddent i gyd yn parhau heb gyflenwad am bum mlynedd yn 2016.</li> <li>• Mae 16 Awdurdod Cynllunio Lleol wedi bod â llai na phum mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai am dair blynedd neu fwy yn olynol.</li> </ul> <p>I'r diben hwn, mae'n glir bod anawsterau cysylltiedig â darparu tai yn fater cenedlaethol ac nid yn unigryw i Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn wir, mae'r ffigurau ar gyfer 2017 yn dangos bod y cyflenwad o dir ar gyfer tai fel y nodwyd mewn Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai wedi dirywio mewn sawl Awdurdod Cynllunio Lleol, gan gynnwys rhai â Chynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (astudiaeth hyfywedd hydredol o'r broses gynllunio a gynhaliwyd gan Arcadis (UK) Cyf.) yn dynodi mai un o'r prif resymau yw dyrannu safleoedd ar gyfer tai sydd, yn eu hanfod, yn amhosibl eu cyflawni neu ond yn debygol o ddod ar gael yng nghyfnodau hwyrach y Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd hyfywedd fel rheswm allweddol dros oedi gyda chyflawni, gan roi sylw i faterion fel gofynion tai fforddiadwy, safleoedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd marchnad gwerth isel, safleoedd o ansawdd gwael neu ofynion seilwaith penodol.</p> <p>Dylid nodi hefyd bod yr Awdurdod wedi comisiynu gwaith i gael ei gynnal ar ffurf asesiad o Anghenion am Dai. Bydd hwn yn ddarn allweddol o dystiolaeth wrth i'r Awdurdod adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol a bydd yn datgan yr opsiynau perthnasol i'n gofynion o ran tai hyd at 2032.</p> <p><b>Argymhelliad:</b> Mae'r dangosyddion blynyddol yn awgrymu nad yw nifer y tai a gwblhawyd yn cyfateb i'r lefel ofynnol. Mae angen ymchwilio ymhellach fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau ag ymchwil cymharu gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill i ddarparu tai.</li> </ul>
--	---

**Ffigur 3**

Nifer yr unedau a ganiatawyd ac a gwblhawyd ym mhob haen anheddiad	
<b>Cwblhawyd/ Ymchwil Polisi</b>	<p><b>Pedwerydd Cyfnod Monitro</b></p> <p><b>Unedau a ganiatawyd 2017 - 2018</b></p> <p>Prif Anheddiad Allweddol Aberhonddu: 7%</p> <p>Aneddiadau Allweddol: 30%</p> <p>Aneddiadau: 51%</p> <p>Aneddiadau Twf Cyfyngedig: 0%</p> <p>Cefn Gwlad: 12%</p> <p>Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0%</p>

	<p><b>Cwblhawyd yn 2017 - 2018</b>  Aberhonddu 7% (14)  Aneddiadau Allweddol 56% (114)  Aneddiadau: 23% (47)  Aneddiadau Twf Cyfyngedig 3% (6)  Cefn Gwlad: 11% (22)  Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0% (0)</p>
	<p><b>Trydydd Cyfnod Monitro</b></p> <p><b>Unedau a ganiatawyd</b>  Prif Anheddiad Allweddol Aberhonddu: 2%  Aneddiadau Allweddol: 48%  Aneddiadau: 13%  Aneddiadau Twf Cyfyngedig: 7%  Cefn Gwlad: 9%  Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 21%</p>
	<p><b>Cwblhawyd yn 2016-2017</b>  Aberhonddu 6% (3)  Aneddiadau Allweddol 8% (4)  Aneddiadau: 61% (32)  Aneddiadau Twf Cyfyngedig 6% (3)  Cefn Gwlad: 19% (10)  Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0</p>
	<p><b>Ail Gyfnod Monitro</b></p> <p><b>Unedau a ganiatawyd</b>  Prif Anheddiad Allweddol Aberhonddu: 14%  Aneddiadau Allweddol: 41%  Aneddiadau: 35%  Aneddiadau Twf Cyfyngedig: 5%  Cefn Gwlad: 5%  Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0</p>
	<p><b>Cwblhawyd yn 2015-2016</b>  Aberhonddu-9%  Aneddiadau Allweddol 9%  Aneddiadau: 54%  Aneddiadau Twf Cyfyngedig 20%  Cefn Gwlad: 9%  Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0</p>
	<p><b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b></p> <p><b>Unedau a ganiatawyd</b>  Prif Anheddiad Allweddol Aberhonddu: 1%  Aneddiadau Allweddol: 8%  Aneddiadau: 88%  Aneddiadau Twf Cyfyngedig: 3%  Cefn Gwlad: 0</p>

Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0

#### **Cwblhawyd yn 2013-2014**

Aberhonddu-0

Aneddiadau Allweddol 0

Aneddiadau: 45%

Aneddiadau Twf Cyfyngedig 0

Cefn Gwlad: 55%

Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0

#### **Cwblhawyd yn 2014-2015**

Aberhonddu-0

Aneddiadau Allweddol 14%

Aneddiadau: 16%

Aneddiadau Twf Cyfyngedig 24%

Cefn Gwlad: 46%

Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0

#### **Sylwadau:**

##### ***Unedau a ganiatawyd:***

Un o amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yw annog datblygu mewn lleoliadau cynaliadwy ger cyfleusterau a gwasanaethau a thrwy hynny leihau'r angen am deithio, gan hefyd barchu dibenion a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Felly, mae'n galonogol gweld parhad mwyafrif yr unedau preswyl sydd wedi cael caniatâd cynllunio yn cael eu lleoli yn naill ai Brif Anheddiad Allweddol Aberhonddu, Aneddiadau Allweddol Crucywel, y Gelli Gandryll, Talgarth a Phontsenni a Defynnog a hefyd yr Aneddiadau Lefel 3.

Mae hwn yn ddangosydd tair blynedd gyda sbardun asesu o fwy na 50% o'r anheddau wedi cael caniatâd cynllunio y tu allan i'r Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol. Ers dechrau monitro ym mis Rhagfyr 2013, mae cyfanswm o 702 o anheddau wedi cael caniatâd cynllunio – gyda 230 o'r rhain wedi'u lleoli yn y Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol. Mae hyn yn cyfateb i 33%, sydd 17% yn is na ffigur y targed asesu.

Mae'n rhesymol awgrymu bod cyfran y datblygiadau sydd, ar hyn o bryd, wedi cael caniatâd cynllunio (a'u cwblhau) ym Mhrif Anheddiad Allweddol Aberhonddu yn gymharol isel. Nid yw'r gwrthod diweddar ar gais perthnasol i safle CS132 a ddyrannwyd, Tir gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd (dynodwyd ar gyfer 137 o anheddau), oherwydd darpariaeth annigonol o Dai Fforddiadwy, wedi helpu. Hefyd, mae dyfarnu caniatâd cynllunio ar amrywiaeth o safleoedd mewn Aneddiadau Allweddol, Aneddiadau Lefel 3 a Safleoedd Tir Llwyd yn eu trefn wedi arwain at wriad i ryw raddau yn y ffigurau.

Fodd bynnag, dylid nodi mai un rhwystr arwyddocaol i ddatblygu yn Aberhonddu yw diffyg capasiti seilwaith carthffosiaeth a dŵr Dŵr Cymru Welsh Water. Cwblhawyd gwaith ar y rhaglen rheoli asedau yn Aberhonddu ym mis Mawrth 2018. Yn wir, mae ceisiadau ac ymholiadau cyn-ymgeisio wedi cael eu derbyn mewn perthynas â nifer o'r safleoedd a ddyrannwyd yn Aberhonddu, gyda'r bwriad o ddatblygu'r rhain nawr bod y Gwaith Dŵr wedi'i gwblhau.

Mae un newid a gwelliant nodedig wedi digwydd ers y cyfnod monitro cyntaf (Rhagfyr 2013-Mawrth 2015) gyda safle CS102 a ddyrannwyd yn Gilwern wedi cael caniatâd cynllunio. Fel y trafodwyd uchod, mae nifer o safleoedd wedi'u dyrannu yn yr Aneddiadau Allweddol wedi symud ymlaen yn y ddau gyfnod monitro mwy diweddar. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- SALT 061 Tir yn Lôn Llangenau, Crucywel
- DBR-HOW-A Tir gyferbyn â'r Dolydd, Y Gelli Gandryll
- DBR-CR-A Tir uwch ben y Telebentref, Crucywel

**Cwblhawyd:**

Mae'r dangosydd hwn yn gofyn am y gyfran leoliadol ganlynol o gwblhau:

- Prif Anheddiad Allweddol – 31%
- Aneddiadau Allweddol – 16%
- Aneddiadau – 47%
- Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd – 17%

Nodir canran (a nifer) yr unedau a gwblhawyd ym mhob haen anheddiad ar gyfer y blynyddoedd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn y tabl isod:

Blwyddyn	Nifer	% yn y Prif Anheddiad (nifer)	% mewn Aneddiadau Allweddol (nifer)	% mewn Aneddiadau (nifer)	% mewn Safleoedd Tir Llwyd (nifer)
2013/14	64	0 (0)	0 (0)	45 (29)	0 (0)
2014/15	45	0 (0)	14 (6)	16 (7)	0 (0)
2015/16	58	9 (5)	9 (5)	54 (31)	0 (0)
2016/17	52	6 (3)	8 (4)	61 (32)	0 (0)
2017/18	203	7 (14)	56 (114)	23 (47)	0 (0)
<b>CYFANSWM</b>	<b>422</b>	<b>5%</b>	<b>30%</b>	<b>35%</b>	<b>0%</b>

Dywed y fframwaith monitro y caiff asesiad ei sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn os bydd llai na 50% o'r anheddau a gwblheir yn digwydd yn y Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol dros gyfnod o 3 blynedd. Mae'r tabl uchod yn dangos ar gyfer 2017-2018 bod 63% o'r unedau a gwblhawyd wedi digwydd yn y ddau haen anheddiad uchaf yn yr hierarchaeth aneddiadau.

Mae gofynion y dangosydd hwn wedi cael ei fodloni. Y rheswm pennaf am hyn yw oherwydd cwblhau unedau ar y safleoedd canlynol:

- SALT 061 Tir yn Lôn Llangenau, Crucywel
- DBR-HOW-A Tir gyferbyn â'r Dolydd, Y Gelli Gandryll
- DBR-CR-A Tir uwch ben y Telebentref, Crucywel

Dylid nodi bod 56% o'r cwblhau yn yr astudiaeth eleni mewn Aneddiadau Allweddol. Nid yw dyraniadau arwyddocaol yn Aberhonddu wedi datblygu, yn bennaf oherwydd problem gyda chapasiti'r seilwaith dŵr. Cwblhaodd Dŵr Cymru Welsh Water waith yn y cyswllt hwn ym mis Mawrth 2018.

Dylid nodi nad yw'r data am unedau a gwblhawyd yn cydberthnasu'n arbennig o dda â'r data am ganiatâd. Y rheswm am hyn yn rhannol yw'r rhesymau seilwaith a nodir uchod, ond hefyd oherwydd bod gan yr Awdurdod reolaeth gyfyngedig o ran

	<p>gweithredu cynlluniau ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei ddyfarnu (a lleoliad y cynlluniau hyn yn yr hierarchaeth aneddiadau hefyd). I'r diben hwn, awgrymir bod cwmpas cyfyngedig i elfen gwblhau'r dangosydd hwn, y tu hwnt i ddibenion 'er gwybodaeth'.</p>
	<p><b>Argymhelliad:</b> Er bod y cyfnod o amser ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i gwblhau, mae'n angenrheidiol parhau i fonitro'r dangosydd drwy gydol Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol.</p> <p>O gofio am y cymesuredd gwell yn ystod y tri chyfnod monitro mwyaf diweddar o ganlyniad i gynnydd gyda'r safleoedd wedi'u dyrannu yn yr Aneddiadau Allweddol, ochr yn ochr â'r gwelliannau seilwaith a gwblhawyd ar gyfer Aberhonddu ym mis Mawrth 2018, mae'n rhesymol awgrymu bod y ffigurau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro cyntaf yn anarferol.</p> <p>Argymhellir bod y monitro mewn perthynas â lleoliad yr anheddau yn yr hierarchaeth aneddiadau yn parhau, a chysylltu â pherchnogion tir y safleoedd a ddyrannwyd (heb ganiatâd cynllunio) yn y Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol, gyda'r bwriad o gael gwybod am yr amserlenni tebygol ar gyfer datblygu'r safleoedd.</p> <p>Wrth gwrs, fel rhan o'r broses Adolygu, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried a yw'r safleoedd a ddyrannwyd sy'n parhau heb ganiatâd cynllunio effeithiol yn bosib eu cyflawni o hyd. Y canlyniad posibl ar gyfer safleoedd o'r fath yw dad-ddyrannu.</p>

**Ffigur 4**

Nifer yr anheddau a gafodd ganiatâd ar safleoedd defnydd cymysg	
<b>Parhau i Fonitro</b>	<b>Pedwerydd Cyfnod Monitro</b>
	Ni chafodd unrhyw Anedd ganiatâd cynllunio ar safleoedd defnydd cymysg.
	<b>Trydydd Cyfnod Monitro</b>
	68 Anedd wedi cael caniatâd cynllunio ar safleoedd defnydd cymysg.
	<b>Ail Gyfnod Monitro</b>
	Ni chafodd unrhyw Anedd ganiatâd cynllunio ar safleoedd defnydd cymysg.
	<b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b>
	Ni chafodd unrhyw Anedd ganiatâd cynllunio ar safleoedd defnydd cymysg.
	<p><b>Sylwadau:</b> Mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i ddyfarnu ar gyfer nifer dangosol o 68 o anheddau a chyfleusterau cyflogaeth yn Hen Wersyll y Fyddin yng Nghwrt-y-Gollen (CS66).</p> <p>Hefyd mae Briffiau Datblygu wedi cael eu cyflwyno ar gyfer y safleoedd defnydd cymysg canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• SALT 037 – Estyniad arfaethedig i T9, Talgarth (15 o anheddau) – <b>Mabwysiadwyd a chyflwynwyd cais ar gyfer 15 o anheddau a dyfarnwyd caniatâd cynllunio ar gyfer ysgol</b></li> <li>• CS66 - Hen Wersyll y Fyddin yng Nghwrt-y-Gollen (70) – <b>Mabwysiadwyd a chymeradwywyd y cais</b></li> <li>• CS132 – Tir Gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd, Aberhonddu (137) – <b>Mabwysiadwyd ond gwrthodwyd y cais - apêl ar hyn o bryd.</b></li> </ul>

	<p>Cyflwynwyd briff datblygu perthnasol i'r safle defnydd cymysg unigol sy'n weddill wedi'i ddyrannu yn hen Ysbyty Canolbarth Cymru i'r Awdurdod ym mis Mehefin 2018 a chytunwyd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Briff.</p>
	<p><b>Argymhelliad:</b> Nid oes sbardun asesu ar gyfer y dangosydd hwn. Gan hynny, caiff ei fonitro dros weddill oes y cynllun.</p>

**Ffigur 5**

Yr holl geisiadau cynllunio a ganiatawyd i sicrhau dwysedd o 30 o anheddau ar bob hectar	
<b>Ymchwil Polisi</b>	<p><b>Pedwerydd Cyfnod Monitro</b> Rhoddwyd caniatâd i 8 o ddatblygiadau preswyl â llai nag 20 o anheddau ar bob hectar Rhoddwyd caniatâd i 5 o ddatblygiadau preswyl ag 20-30 o anheddau ar bob hectar Rhoddwyd caniatâd i 8 o ddatblygiadau preswyl â 30 o anheddau ar bob hectar</p>
	<p><b>Trydydd Cyfnod Monitro</b> Rhoddwyd caniatâd i 11 o ddatblygiadau preswyl â llai nag 20 o anheddau ar bob hectar Rhoddwyd caniatâd i 11 o ddatblygiadau preswyl ag 20-30 o anheddau ar bob hectar Rhoddwyd caniatâd i 5 o ddatblygiadau preswyl â 30 o anheddau ar bob hectar</p>
	<p><b>Ail Gyfnod Monitro</b> Rhoddwyd caniatâd i 10 o ddatblygiadau preswyl â llai nag 20 o anheddau ar bob hectar Rhoddwyd caniatâd i 4 o ddatblygiadau preswyl ag â 20-30 o anheddau ar bob hectar. Rhoddwyd caniatâd i 3 o ddatblygiadau preswyl â 30 o anheddau ar bob hectar</p>
	<p><b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b> Rhoddwyd caniatâd i 16 o ddatblygiadau preswyl â llai nag 20 o anheddau ar bob hectar Rhoddwyd caniatâd i 5 o ddatblygiadau preswyl ag 20-30 o anheddau ar bob hectar. Rhoddwyd caniatâd i 5 o ddatblygiadau preswyl â 30 o anheddau ar bob hectar</p>
	<p><b>Sylw:</b> Mae Polisi 61 y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â dwysedd anheddau ac mae'n nodi'r canlynol:</p> <p><i>“Bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl gael ei ddatblygu ar ddwysedd o 30 anedd yr hectar o leiaf, lle mae hyn yn gydnaws â chymeriad presennol yr ardal.</i></p> <p><i>Caniateir lefelau is na'r targed lleiaf os gellir profi nad oes modd cyflawni'r dwysedd hwn yn sgil cynnwys mesurau i wella cynaliadwyedd y cynllun na ellir ei leoli ar dir y tu allan i'r dyraniad.”</i></p> <p>Mae'n amlwg bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y polisi hwn i ganiatáu datblygiadau sydd â llai na 30 o anheddau ar bob hectar e.e. natur yr ardal gyfagos. At hyn, bu achosion pan gytunwyd ar ddatblygiadau a chanddynt ddwysedd is oherwydd cyflwr anarferol y safle – cyfyngiadau topograffeg/ mynediad er enghraifft.</p>

	<p>Argymhellwyd y canlynol yn Adroddiad y cyfnod monitro cyntaf:</p> <p><i>“Mae’r dangosydd yn awgrymu nad yw’r polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn llawn. Rhaid nodi, fodd bynnag, bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y polisi hwn i ganiatáu datblygiadau sydd â llai na 30 o anheddau ar bob hectar. Gan hynny, mae angen rhagor o waith ymchwil mewn perthynas â’r canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Ymchwilio i nifer y safleoedd a ddyrannwyd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt, a hynny ar gyfer datblygiadau sydd â llai na 30 o anheddau ar bob hectar</i></li> <li>• <i>Penderfynu ar y rhesymau penodol dros ganiatáu lefel is o ddwysedd o anheddau.</i></li> </ul> <p><i>Gan ddibynnu ar ganlyniadau’r Ymchwil Polisi hwn, mae’n bosibl y bydd angen rhoi hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion Rheoli Datblygu ac Aelodau’r Awdurdod yn ymwneud â gofynion Polisi 61. Ystyriaeth arall fydd datblygu rhan ychwanegol i’w chynnwys yn y Canllawiau Cynllunio Atodol, i ymdrin â dwysedd ac amrywiaeth yr anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai a safleoedd defnydd cymysg.”</i></p> <p>Ymhellach yng nghyswllt yr argymhelliad hwn, archwiliwyd y cynigion cais perthnasol a phenderfynwyd eu bod i gyd yn gorwedd oddi mewn i oddefgarwch Polisi 61. Hynny yw, mae’n rhesymol awgrymu mai dim ond ar gyfer cynigion datblygu gyda dwysedd is na chaniatâd o 30 anedd ar bob hectar y dyfarnwyd caniatâd cynllunio, mewn achosion lle nad oedd modd cyflawni hynny, neu ni fyddai dwysedd o 30 anedd ar bob hectar yn gydnaws ag amgylchedd y safle penodol.</p> <p>Er gwaethaf hyn, cafodd y Swyddogion Rheoli Datblygu hyfforddiant gan y Tîm Strategaeth a Pholisi er mwyn sicrhau bod y polisi’n cael ei ddehongli’n briodol.</p>
	<p><b>Argymhelliad:</b></p> <p>Mae’r dangosydd yn awgrymu nad yw’r polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn llawn. Rhaid nodi, fodd bynnag, bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y polisi hwn i ganiatáu datblygiadau sydd â llai na 30 o anheddau ar bob hectar. Gan hynny, mae angen rhagor o waith ymchwil i benderfynu ar y rhesymau penodol dros ganiatáu lefel is o ddwysedd o anheddau.</p>

**Ffigur 6**

Targed canran Tai Fforddiadwy	
<b>Parhau i Fonitro</b>	<b>Pedwerydd Cyfnod Monitro</b>
	Mae Mynegai Pris Tai’r Gofrestrfa Tir ar gyfer Merthyr Tudful yn dangos bod newid o +1.3% wedi bod ym mhrisiau’r tai ar gyfer cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn.
	<b>Trydydd Cyfnod Monitro</b>
	Mae Mynegai Pris Tai’r Gofrestrfa Tir ar gyfer Merthyr Tudful yn dangos bod newid o +1.4% wedi bod ym mhrisiau’r tai ar gyfer cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn.
	<b>Ail Gyfnod Monitro</b>
	Mae Mynegai Pris Tai’r Gofrestrfa Tir ar gyfer Merthyr Tudful yn dangos bod newid o -1.75% wedi bod ym mhrisiau’r tai ar gyfer cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn. Fodd bynnag, mae prisiau cyfartalog y tai’n parhau’n uwch na’r

	rhaf yn y rhanbarth pan fabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2013.
	<b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b> Mae data gan y Gofrestrfa Tir ac yn deillio o'r Pecyn Cymorth Arfarnu Datblygiadau'n awgrymu bod prisiau tai wedi codi rhywfaint, rhwng 9 a 17%, yn is-farchnad Blaenau'r Cymoedd rhwng 2012 a 2015.
	<b>Sylw:</b> Y sbardun asesu ar gyfer y dangosydd hwn yw newid o 2.5% ym mhrisiau tai yn ardal is-farchnad Blaenau'r Cymoedd a 5% o newid ar draws gweddill ardal y Parc Cenedlaethol.
	<b>Argymhelliad:</b> O gofio bod data'r Gofrestrfa Tir, ynghyd â data'r Pecyn Cymorth Arfarnu Datblygiadau, yn awgrymu bod prisiau tai yn ardal Blaenau'r Cymoedd wedi codi'n sylweddol, er y gostyngiad yn 2015/16, byddai'n fuddiol i'r Awdurdod ystyried cynnal profion hyfywedd ychwanegol er mwyn addasu'r targedau ar gyfer canran y tai fforddiadwy a godir (os yw'n briodol) yn ystod y broses o Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Ffigur 7**

<b>Nifer yr anheddau fforddiadwy y dyfarnwyd caniatâd iddynt</b>	
<b>Parhau i Fonitro</b>	<b>Pedwerydd Cyfnod Monitro</b> Dyfarnwyd caniatâd ar gyfer 9 o anheddau fforddiadwy. Mae hyn yn cyfrif am 12% o'r holl anheddau preswyl a ganiatawyd.
	<b>Trydydd Cyfnod Monitro</b> Dyfarnwyd caniatâd ar gyfer 63 o anheddau fforddiadwy. Mae hyn yn cyfrif am 23% o'r holl anheddau preswyl a ganiatawyd.
	<b>Ail Gyfnod Monitro</b> Dyfarnwyd caniatâd ar gyfer 45 o anheddau fforddiadwy. Mae hyn yn cyfrif am 38% o'r holl anheddau preswyl a ganiatawyd.
	<b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b> Dyfarnwyd caniatâd ar gyfer 24 o anheddau fforddiadwy. Mae hyn yn cyfrif am 17% o'r holl anheddau preswyl a ganiatawyd.
	<b>Sylw:</b> Y targed ar gyfer y dangosydd hwn yw rhoi caniatâd cynllunio i godi 47 o Dai Fforddiadwy y flwyddyn (+/- 30%). Hefyd ceir sbardun asesu o ddarparu llai na 38 o Dai Fforddiadwy bob blwyddyn am 3 blynedd yn olynol. Cyrhaeddwyd y targed blyneddol yn y ddau gyfnod monitro blaenorol, felly cafodd y sbardun asesu 3 blynedd ei ailosod yn 2016-2017. Yn ystod y cyfnod monitro hwn bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr unedau fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio, gyda ffigur o 9. Mae'r gostyngiad hwn mewn niferoedd yn cyd-fynd â'r nifer is o anheddau newydd a dderbyniodd Ganiatâd Cynllunio yn ystod y cyfnod hwn (57).
	Nid yw gwrthod caniatâd cynllunio perthnasol i safle CS132 a ddyrannwyd, Tir Gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd (dynodwyd ar gyfer 137 o anheddau), oherwydd darpariaeth annigonol o Dai Fforddiadwy, wedi helpu gyda'r gostyngiad yn y ffigurau. Mae apêl ynghylch y cais hwn nawr. Fel y trafodwyd yn flaenorol, gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer y caniatadau cynllunio oherwydd na fu datblygu ar y dyraniadau yn Aberhonddu, yn bennaf oherwydd y broblem gyda chapasiti'r seilwaith dŵr. Cwblhaodd Dŵr Cymru Welsh Water y gwaith ym mis Mawrth 2018. Mae ceisiadau ac ymholiadau cyn-ymgeisio wedi cael eu derbyn yn

	<p>awr mewn perthynas â nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn Aberhonddu, gyda'r bwriad o'u datblygu gan fod y gwaith dŵr wedi'i gwblhau.</p> <p>Dylid nodi mai'r symiau gohiriedig yr 'ymrwymwyd iddynt' yn ystod y cyfnod o ganiatâd cynllunio yn 2017-2018 oedd £204,698.60.</p> <p>Y symiau gohiriedig yr 'ymrwymwyd iddynt' o ganiatâd cynllunio ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yw £1,049,919.97</p>
	<p><b>Argymhelliad:</b> Rhaid monitro'r dangosydd hwn am flwyddyn arall.</p>

**Ffigur 8**

Nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd	
<b>Parhau i Fonitro</b>	<p><b>Pedwerydd Cyfnod Monitro Cwblhawyd yn 2017-2018: 41</b></p>
	<p><b>Trydydd Cyfnod Monitro Cwblhawyd yn 2016-2017: 24</b></p>
	<p><b>Ail Gyfnod Monitro Cwblhawyd yn 2015-2016: 10</b></p>
	<p><b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b></p> <p><b>Cwblhawyd yn 2013-2014 31</b> <b>Cwblhawyd yn 2014-2015 6</b></p>
	<p><b>Sylw:</b> Mae'r ail sbardun asesu'n dweud bod angen cwblhau mwy na 15 o Dai Fforddiadwy bob blwyddyn am dair blynedd yn olynol. Yn unol â hynny, mae'r dangosydd hwn yn gofyn am fonitro am flwyddyn bellach, gan gydnabod mai dim ond 6 o Dai Fforddiadwy a gwblhawyd yn ystod 2014-15 a 10 ar gyfer 2015-16.</p> <p>Cofnodwyd 41 o unedau wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod monitro, sy'n fwy na gofynion y dangosydd.</p> <p>Mae'r unedau a gwblhawyd yn cynnwys unedau yn nyraniad DBR-CR-A Tir uwch ben y Telebentref yng Nghrucywel, Tir gyferbyn â Chlos Sant Pedr yn Llanbedr a Thir yn Lôn yr Ysgol yn Nhalgarth.</p> <p>Dylid cyfeirio at lefel y cyfraniadau Tai Fforddiadwy a wnaed drwy gyfrwng taliad y swm gohiriedig. Wrth gwrs, bydd cyfnod o oedi rhwng derbyn symiau o'r fath a gwireddu'r rhain ar ffurf datblygu unedau Tai Fforddiadwy ar y tir. Yn unol â hynny, rhaid wrth ryw fath o gydnabyddiaeth i hyn.</p>
	<p><b>Argymhelliad:</b> Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.</p>

**Ffigur 9**

Nifer yr anheddau i'w gwerthu ar y farchnad agored ar safleoedd sy'n cynnwys 3 annedd neu ragor	
<b>Parhau i Fonitro</b>	<p><b>Pedwerydd Cyfnod Monitro</b> Ni chaniatawyd unrhyw safleoedd lle dangoswyd nad oedd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar y safle'n hyfyw yn unol â'r targed tai fforddiadwy priodol.</p>

	<b>Trydydd Cyfnod Monitro</b>		
	Caniatawyd 23 o unedau marchnad ar 4 safle gwahanol lle dangoswyd nad oedd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar y safle'n hyfyw. Mae hyn yn cyfateb i golli 19 o anheddau fforddiadwy. Bu colled bellach o 21.5 o anheddau fforddiadwy ar safleoedd lle mae rhywfaint o ddarpariaeth ar y safle wedi'i darparu, ond nid y targed tai fforddiadwy llawn.		
	<b>Ail Gyfnod Monitro</b>		
	Caniatawyd 25 o unedau ar 4 safle gwahanol lle dangoswyd nad oedd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar y safle'n hyfyw. Mae hyn yn cyfateb i golli 5 o anheddau fforddiadwy		
	<b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b>		
	Caniatawyd 5 o unedau (yn cyfateb i golli 13 o Anheddau Fforddiadwy ar y tir) ar y safle ar gyfer 3 neu fwy o anheddau ac nid oedd hynny'n cyflawni'r lefelau polisi o gyfraniad tai fforddiadwy.		
	<p><b>Sylw:</b></p> <p>Ni fyddai asesiad o'r polisi'n cael ei sbarduno oni bai fod mwy na 10 o anheddau i'w gwerthu ar y farchnad agored yn cael eu caniatáu am dair blynedd yn olynol. Gan fod nifer yr unedau'n fwy na 10 yn yr ail gyfnod monitro a'r trydydd cyfnod monitro, mae'r dangosydd yn galw am fonitro pellach. Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw safleoedd lle dangoswyd nad oedd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar y safle'n hyfyw yn unol â'r targed tai fforddiadwy priodol.</p> <p>Ystyrir hefyd maint y symiau gohiriedig a gaiff eu talu yn lle cyfraniadau ar y safle wrth bwyso a mesur yr effaith ganfyddedig. Yn y pen draw, caiff yr arian hwn ei ddefnyddio i ddarparu tai fforddiadwy ar y tir yn unig.</p>		
<b>REFVAL</b>	<b>Cyfanswm yr Unedau</b>	<b>Targed polisi TFF</b>	<b>Sylwebaeth</b>
13/09974/OUT	5	1	3 Uned Fforddiadwy wedi'u darparu ar y safle. 2 yn fwy na'r targed polisi o 20% ar gyfer yr ardal.
15/12223/OUT	9	1.8	1 Uned Fforddiadwy wedi'i darparu ar y safle gyda chyfraniad ariannol ar gyfer y 0.8 o unedau sy'n weddill gan nad oes modd darparu hyn ar y safle.
17/15286/OUT	3	0	Mae Pontsticill yn Ardal Is-farchnad Blaenau'r Cymoedd a'r De Gwledig ac felly nid oes gofyniad i ddarparu ar y safle nac i wneud cyfraniad ar gyfer tai fforddiadwy.
17/14650/FUL	5	1	1 Uned Fforddiadwy wedi'i chynnig ar y safle hwn. Mae hyn yn cyrraedd y targed polisi o 20% ar gyfer tai fforddiadwy yn Ardal Is-farchnad Aberhonddu a'r Berfeddwlad Wledig.
16/13828/FUL	15	3	3 Uned Fforddiadwy wedi'u cynnig ar y safle hwn. Mae hyn yn cyrraedd y targed polisi o 20% ar gyfer tai fforddiadwy yn Ardal Is-farchnad Aberhonddu a'r Berfeddwlad Wledig.

	18/15681/OUT	5	1	1 Uned Fforddiadwy wedi'i chynnig ar y safle hwn. Mae hyn yn cyrraedd y targed polisi o 20% ar gyfer tai fforddiadwy yn Ardal Is-farchnad Aberhonddu a'r Berfeddwlad Wledig.	
<b>Argymhelliad:</b> Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.					

**Ffigur 10**

<b>Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiatawyd ar safleoedd ar hap</b>	
<b>Parhau i Fonitro</b>	<b>Pedwerydd Cyfnod Monitro</b> 4 Annedd Fforddiadwy ar safle ar hap
	<b>Trydydd Cyfnod Monitro</b> 13 Annedd Fforddiadwy ar safle ar hap
	<b>Ail Gyfnod Monitro</b> 29 Annedd Fforddiadwy ar safle ar hap
	<b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b> 4 Annedd Fforddiadwy ar safle ar hap
	<b>Sylw:</b> Rhagorwyd ar y targed blynyddol o 3 o Anheddau Fforddiadwy ar safleoedd ar hap i gael caniatâd cynllunio bob blwyddyn am dair blynedd yn olynol. Dylid nodi y caiff asesiad ei sbarduno os na roddir caniatâd cynllunio i godi o leiaf 2 annedd fforddiadwy ar hap bob blwyddyn am dair blynedd yn olynol.  Yn ystod y cyfnod monitro hwn dyfarnwyd caniatâd cynllunio i 1 annedd fforddiadwy yng Nghefn yr Hen Ysgol ym Methlehem a 3 annedd fforddiadwy ar safle ar hap yn Nhŷ Mawr ger Pennorth.
	<b>Argymhelliad:</b> Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

**Ffigur 11**

<b>Nifer yr Anheddau Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig</b>	
<b>Parhau i Fonitro</b>	<b>Pedwerydd Cyfnod Monitro</b> 0 Annedd wedi cael caniatâd ar safleoedd Tai Fforddiadwy Eithriedig.
	<b>Trydydd Cyfnod Monitro</b> 0 Annedd wedi cael caniatâd ar safleoedd Tai Fforddiadwy Eithriedig.
	<b>Ail Gyfnod Monitro</b> 0 Annedd wedi cael caniatâd ar safleoedd Tai Fforddiadwy Eithriedig.
	<b>Cyfnod Monitro Cyntaf:</b> 0 Annedd wedi cael caniatâd ar safleoedd Tai Fforddiadwy Eithriedig.
	<b>Sylw:</b> Er na lwyddwyd i gyrraedd y targed blynyddol o roi caniatâd cynllunio i 4 o anheddau fforddiadwy, dylid nodi nad oherwydd i'r Awdurdod wrthod caniatâd

	<p>cynllunio y digwyddodd hyn. Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddatblygu 'safleoedd eithriadig' yn ystod y cyfnod a byddai'n rhesymol tybio bod hyn y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Gan hynny, o gofio ei fod yn ymwneud â 'datblygiad eithriadol', bydd angen ystyried a fydd angen monitro'r dangosydd hwn yn y dyfodol.</p>
	<p><b>Argymhelliad:</b> Parhau i fonitro ond ystyried a ddylid parhau i fonitro'r dangosydd hwn yn y dyfodol.</p>

**Ffigur 12**

	<b>Argymhelliad:</b> Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, mae'n cael ei ystyried fel dangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

## Monitro Safleoedd

Fel rhan o broses yr Adroddiad Monitro Blyneddol, mae'r Awdurdod wedi cytuno i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a datblygiad y safleoedd a ddyrannwyd. Y bwriad yw tynnu sylw at y gwaith sydd wedi digwydd, gan gynnwys paratoi astudiaethau, ceisiadau a/neu gynnydd unrhyw ddatblygiadau. Yn unol â hynny, mae'r tabl isod yn ceisio dangos y cynnydd a wnaed ar y safleoedd a ddyrannwyd yn ôl cerrig milltir cynnydd penodol:

Ffigur 41

Safle	Nifer dangosol yr unedau	Briff Datblygu wedi'i gyflwyno	Briff Datblygu wedi'i gytuno	Cais Wedi'i Gyflwyno	Tebygol o gael caniatâd yn amodol ar adran 106	Rhoddyd Caniatâd Cynllunio	Datblygiad Wedi Dechrau
5 Mlynedd Cyntaf							
CS28 Estyniad Caeau	– 66	AMH.	AMH.	Naddo			

Cwmffaldau, Aberhonddu							
CS132 - Tir gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd, Aberhonddu	30	Do	Do	Do		Gwrthodwyd	
SALT 061 – Tir yn ffinio â Lôn Llangenau, Crucywel	20	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Do	Do
DBR-HOW-A – Tir Gyferbyn â'r Dolydd, Y Gelli Gandryll	62	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Do	Do
SALT 059 – Tir yn ffinio â Brecon Pharmaceuticals, Y Gelli Gandryll	5	AMH.	AMH.	Do			
SALT 037 – Estyniad arfaethedig i T9, Talgarth	15	Do	Do	Do	Ydi	Naddo	
DBR-BCH-J - Tir yn ffinio â Choed Bwlch, Bwlch	15	AMH.	AMH.	Naddo			
CS102 – Dan-y-Bryn a Lancaster Drive, Gilwern	112	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Do	Do
DBR-LIB-E – Tir yn ffinio â Chlos Pen y Fan, Libanus	3	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Do	Naddo
DBR-LBD-A – Tir yn ffinio â Chlos St Peter	8	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Do	Do
DBR-LGN-D – Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Llanigon, Llanigon	10	AMH.	AMH.	Naddo			
DBR-LPD-A – Tir oddi ar Heol Sant Catwg, Llanspyddid	10	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Do	Naddo

DBR-PNT-D – Tir yn ffinio ag Ambleside, Pennorth	6	AMH.	AMH.	Naddo			
CS66 – Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt y Gollen	70	Do	Do	Do	Ydi	Do	
Gweddill cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol							
CS93 – Cae Tŷ Slwch, Aberhonddu	23	AMH.	AMH.	Naddo			
DBR-BR-A – Safle i'r Gogledd o Camden Crescent, Aberhonddu	38	AMH.	AMH.	Naddo			
DBR-BR-B – Tir i'r gogledd o Gos Cradoc, Aberhonddu	33	AMH.	AMH.	Naddo			
CS132 – Tir gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd, Aberhonddu	107	Do	Do	Do	Nac ydi	Gwrthodwyd	
DBR-CR-A – Tir uwch ben Telebentref, Crucywel	20	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Do	Do
CS138 – Glannau Senni, Defynnog	15	AMH.	AMH.	Naddo			
DBR-HOW-C – Tir yn ffinio â'r Orsaf Dân	13						
CS42 – Tir yng Nghrai, Crai	9	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Do	Naddo
CS43 – Tir i'r de orllewin o Walia, Crai	6	AMH.	AMH.	Naddo			
CS39/69/70/88/89/99 – Tir yn Nhŷ Clyd, Gofilon	93	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Do (rhan o'r safle)	

CS120 – Tir i’r de o Dŷ Melys, Pencelli	6	AMH.	AMH.	Do	Ydi	Naddo	
CS55 – Tir ym Mhenygarn, Pontsticill	6	AMH.	AMH.	Naddo			
DBR-PTSC/C – Tir ym mhen draw Dan-y-Coed, Pontsticill	3	AMH.	AMH.	Do		Do	
CS91 – Tir i’r gorllewin o Dŷ Ponsticill, Pontsticill	6	AMH.	AMH.	Do			
CS127 – Fferm Maesmawr, Talybont	57	AMH.	AMH.	Naddo			
CS111 – Hen Ysbyty Canolbarth Cymru	93	Naddo	Naddo	Naddo			

### ***Y 5 Mlynedd Gyntaf***

Nodir bod 10 safle wedi cael eu datblygu ymlaen i’r cam cais cynllunio yn ystod y cyfnod hwn, gyda 4 datblygwr wedi dechrau ar y gwaith datblygu. Mae 5 safle pellach wedi symud ymlaen oddi mewn i’r camau ystyried a phenderfynu yn y cais cynllunio. Gan fod yr Adolygiad o’r Cynllun Datblygu Lleol wedi dechrau yn awr, mae’r gwaith ar y cais am brosesu safleoedd ymgeisio’n debygol o ddechrau yn hydref 2018 yn unol â’r Cytundeb Cyflawni drafft.

### ***Gweddill Cyfnod y Cynllun***

Yn ôl y disgwyl, bu llai o weithgarwch mewn perthynas â’r safleoedd hyn gyda saith yn cael eu symud ymlaen i gam ymgeisio, a phedwar o’r rhain wedi’u caniatáu. O blith y pedwar caniatâd a ddyfarnwyd, mae un safle datblygu o 22 o unedau wedi’i gwblhau erbyn y cyfnod monitro hwn. Gwerthfawrogir bod nifer o’r safleoedd hyn wedi’u cyfyngu gan broblemau cysylltiedig â’r seilwaith dŵr, fodd bynnag, mae nifer o welliannau dŵr wedi’u cwblhau erbyn hyn.

### ***Safleoedd Defnydd Cymysg***

O edrych ar y safleoedd defnydd cymysg a ddyrannwyd (Ysbyty Canolbarth Cymru, Cwrt y Gollen, Heol y Gelli Gandryll a Thir Gyferbyn â’r Ysgol Uwchradd), dylid nodi bod paragraff 7.2.1 o’r Cynllun Datblygu Lleol yn datgan bod angen cytuno ar friffiau datblygu ar y safle cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio. Yn unol â hynny, cytunwyd ar Friffiau ar gyfer Cwrt y Gollen, Heol y Gelli Gandryll a Thir Gyferbyn â’r Ysgol Uwchradd. Mae’r Briff Datblygu Drafft ar gyfer safle Ysbyty Canolbarth Cymru yn Nhalgarth wedi’i gyflwyno i’r Awdurdod a lluniwyd cytundeb i gynnal ymgynghoriad ar y ddogfen yn y cyfarfod o Bwyllgor Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Mehefin 2018.

### **Argymhellion**

#### ***Gwaith Monitro Wedi’i Gwblhau***

Bodlonwyd nifer o ofynion y dangosyddion yn ystod cyfnod monitro cyntaf y Cynllun Datblygu Lleol ac, yn unol â hynny, nid oes angen monitro’r rhain bellach. Dyma’r dangosyddion:

- Meddiannu'r safle a ddyrannwyd i Sipsiwn a Theithwyr; a
- Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r canlynol:
  - Tai Fforddiadwy
  - Rhwymedigaethau Cynllunio
  - Datblygiadau Priodol yng Nghefn Gwlad
  - Arallgyfeirio Ffermydd
  - Llygredd Golau
  - Datblygiadau Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru
  - Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fechan
  - Diogelu Mwynau

Yn ystod yr ail gyfnod monitro, bodlonwyd gofynion y dangosyddion canlynol:

- Adolygiad o Ardaloedd Cadwraeth Aberhonddu, Talgarth a'r Gelli Gandryll
- Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r canlynol:
  - Archwiliad Bioamrywiaeth
  - Bioamrywiaeth

Yn ystod cyfnod monitro 2016-2017, bodlonwyd gofynion y dangosyddion canlynol:

- 0.75 o hectarau o dir cyflogaeth a ddyrannwyd wedi'u datblygu

Yn ystod cyfnod monitro 2017-2018, bodlonwyd gofynion y dangosyddion canlynol:

- 781 o anheddau wedi'u cwblhau ers dechrau cyfnod y Cynllun, gan gyflawni'r sbardun asesu sy'n datgan ei bod yn ofynnol i rhwng 696 a 1044 o anheddau gael eu datblygu erbyn 2017.

### ***Rhoi'r Gorau i Fonitro***

Argymhellir hefyd yn ystod y cyfnod monitro cyntaf y dylid rhoi'r gorau i fonitro'r dangosydd a ganlyn:

- Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mwy nad ydynt yn defnyddio adnoddau carbon isel neu ddim carbon i gynhyrchu 20% o'u hynni

Ystyriwyd nad yw'r dangosydd carbon isel a dim carbon yn adnodd mesur priodol gan nad yw'n ymwneud ag unrhyw bolisiau penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Hynny yw, nid oes polisiau na chanllawiau yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n cymhell ymgeiswyr i gyrraedd y targed o 20% yn ymwneud ag ynni Carbon Isel neu Ddim Carbon.

Cyflwynwyd y dangosydd hwn o ganlyniad i ofynion Polisi SP11 (Datblygiad Cynaliadwy) gan ei fod wedi'i ddrafftio'n wreiddiol yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo. Fodd bynnag, tynnodd yr Arolygwr y gofyniad penodol hwn o'r polisi yn ystod Archwiliad y Cynllun Datblygu Lleol, gan ei fod yn mynd y tu hwnt i ofynion y Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Drwy gamgymeriad yn unig mae'r dangosydd yn parhau yn y Fframwaith Monitro; ni sylwyd arno yn ystod y broses olygu ac felly ni chafodd ei ddiwygio drwy Newidiadau yn y Materion yn Codi. Serch hynny, mae nifer o ddangosyddion Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy ac Ynni Adnewyddadwy wedi parhau i gael eu monitro yn ychwanegol at ofynion monitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Ar gyfer yr ail a'r trydydd cyfnod monitro, argymhellwyd parhau i fonitro'r holl ddangosyddion perthnasol (ac eithrio'r rhai lle mae'r gofynion yn gyflawn fel y nodir uchod).

### ***Monitro yn y Dyfodol a Gwaith Ychwanegol***

*Gwaith yn Codi o'r Cyfnodau Monitro Blaenorol*

Yn dilyn y cyfnod monitro cyntaf, penderfynwyd y byddai mwyafrif helaeth y dangosyddion, fel sy'n ofynnol o dan Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, yn parhau i gael eu monitro. O blith y rhain, roedd nifer bach oedd angen rhywfaint o waith ychwanegol ar ffurf ymchwil polisi, Canllawiau Cynllunio Atodol a hyfforddi Swyddogion/Aelodau, a wnaed yn ystod yr ail gyfnod monitro.

Mae'r dangosydd cyntaf sydd angen ymchwil polisi ychwanegol yn ymwneud â **sawl caniatâd a ddyfarnwyd a'r anheddau a gwblhawyd yn flynyddol.**

Bydd rhywfaint o ymchwil cymharol gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill ar y pryd i ddarparu tai yn fuddiol o ran darparu cyd-destun ehangach a dealltwriaeth o'r problemau ledled Cymru. Dylai astudiaeth o'r Awdurdodau Cyfansoddol, a hefyd y ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall, ddarparu sampl sy'n briodol eang. Er nad yw hyn wedi'i gwblhau fel y disgrifir hyd yma, dangosodd y dadansoddiad o argaeledd tir ar gyfer darparu tai ledled Cymru nad oedd gan 19 allan o'r 25 Awdurdod Cynllunio gyflenwad 5 mlynedd ar y pryd (gyda chyfartaledd Cymru'n gyflenwad o 3.0 blynedd ar gyfartaledd). O gofio bod gan bob un o'r 25 Awdurdod gynllun datblygu cyfredol (nid ydynt i gyd yn Gynlluniau Datblygu Lleol), roedd hyn yn awgrymu bod problem eang o ran darparu tai.

Yn dilyn y cyfnod monitro cyntaf, roedd yn rhesymol awgrymu bod y gwaith o weithredu Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn mynd rhagddo'n dda. Er bod cydnabyddiaeth mai hwn oedd yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a bod nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu datblygu, dylid nodi cyflymder y cynnydd hwn a nifer y safleoedd heb symud ymlaen i'r cam ymgeisio. Yn unol â hynny, argymhellwyd cynnal ymchwiliad pellach i benderfynu ar y rhesymau pam nad yw 8 allan o'r 14 o ddyraniadau ar gyfer 5 mlynedd cyntaf y cynllun wedi symud ymlaen. Yn unol â hynny, cysylltodd y swyddogion yn uniongyrchol â'r perchnogion tir er mwyn cael diweddariad a hefyd i fanteisio ar y cyfle i roi gwybod iddynt y bydd yr Awdurdod yn ystyried dileu eu safle o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystod yr Adolygiad os na chaiff ei ddatblygu yn ystod 5 mlynedd gyntaf y cynllun. Cafodd y swyddogion wybod gan y perchnogion tir perthnasol y caiff y safleoedd eu datblygu yn y dyfodol agos ac, yn wir, cyflwynwyd un cais yn ystod yr ail gyfnod monitro.

Gan droi at y dangosydd sy'n nodi bod rhaid i **bob cais y dyfarnwyd caniatâd cynllunio iddo gyflawni dwysedd o 30 o anheddau yr hectar**, roedd angen rhywfaint o ymchwil polisi ychwanegol i'r canlynol yn dilyn y cyfnod monitro cyntaf:

- Nifer y safleoedd a ddyrannwyd (yn benodol) sydd wedi cael caniatâd cynllunio ar ddwysedd is na 30 o anheddau yr hectar; a
- Penderfynu ar y rhesymau penodol dros ganiatáu dwysedd is.

Fel y cyfeiriwyd uchod, argymhellwyd darparu hyfforddiant ychwanegol ac argymhellwyd Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â'r mater penodol hwn. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil a awgrymwyd.

Canfu'r ymchwil bod y polisi'n cael ei weithredu'n gywir gan y swyddogion. Er hynny, darparwyd hyfforddiant i swyddogion gan y Tîm Strategaeth a Pholisi, i sicrhau bod yr holl swyddogion (yn benodol, aelodau newydd o staff) yn ymwybodol o'r goblygiadau posibl i'r Cynllun Datblygu Lleol.

Y dangosydd olaf yr oedd angen cynnal ymchwil polisi ychwanegol iddo yn dilyn cam cyntaf y monitro oedd y targedau ar gyfer cyfraniad canran y Tai Fforddiadwy yn nhair ardal is-farchnad y Parc Cenedlaethol. Mae data crai gan y Gofrestrfa Tir a'r Pecyn Cymorth Arfarnu Datblygiadau'n awgrymu bod gwerth tir wedi cynyddu ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. O ystyried yr effeithiau cadarnhaol posibl yn ymwneud â hyfywedd datblygiadau, byddai'n fuddiol i'r Awdurdod ystyried profion hyfywedd ychwanegol er mwyn addasu'r targedau Tai Fforddiadwy (os yw'n briodol) yn ystod cam yr Adolygiad cyntaf.

O ganlyniad i'r ail gyfnod monitro, argymhellwyd ymchwil polisi pellach mewn perthynas â'r dangosyddion canlynol:

- Sawl caniatâd a ddyfarnwyd a'r cwblhau ar anheddau bob blwyddyn
- Dwysedd anheddau
- Canran cyfraniad Tai Fforddiadwy
- Datblygiadau sy'n cael effaith niweidiol ar asedau treftadaeth

Yn y Trydydd Cyfnod Monitro, awgrymodd y dangosyddion blynyddol nad oedd nifer y tai a gwblhawyd yn cyrraedd y lefel ofynnol. Awgrymwyd bod angen rhywfaint o ymchwil pellach ar ffurf cynnal ymchwil cymharu gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill wrth ddarparu tai. Er bod rhywfaint o ymchwil wedi'i gynnal eisoes fel y nodir uchod, credid fod angen ymchwil mwy penodol mewn perthynas â darparu tai ar draws awdurdodau cymharol eraill. I'r diben hwn, dangosodd Gyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 ledled Cymru nad oedd 19 allan o'r pump ar hugain o awdurdodau cynllunio lleol, ar 1 Ebrill 2016, yn gallu dangos cyflenwad o dir ar gyfer tai am bum mlynedd. O gymharu, nid oedd 19 awdurdod cynllunio lleol yn gallu dangos cyflenwad o dir ar gyfer tai am bum mlynedd yn 2016, gyda'r rhan fwyaf yn parhau heb gyflenwad pum mlynedd yn 2017. At hyn, mae 14 awdurdod cynllunio lleol wedi bod â llai na phum mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tair am dair blynedd neu fwy yn olynol.

I'r diben hwn, mae'n glir bod anawsterau mewn perthynas â darparu tai'n broblem genedlaethol heb fod yn unigryw i Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn wir, mae'r ffigurau ar gyfer 2017 yn dangos bod y cyflenwad o dir ar gyfer tai, fel y nodir yn y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, wedi dirywio mewn llawer o ACLL, gan gynnwys rhai gyda Chynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (astudiaeth hyfywedd hydredol o'r broses gynllunio a gynhaliwyd gan Arcadis (UK) Cyf.) yn dynodi mai un o'r prif resymau yw'r dyraniad o safleoedd ar gyfer tai sydd, yn eu hanfod, yn amhosibl eu cyflawni neu ond yn debygol o ddatblygu yng nghyfnodau hwyrach y Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd hyfywedd fel rheswm allweddol dros yr oedi gyda darparu, gan roi sylw i faterion fel gofynion tai fforddiadwy, safleoedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd marchnad gwerth isel, safleoedd o ansawdd gwael neu ofynion seilwaith penodol.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn (2017-2018), bu gwelliant sylweddol yn y niferoedd a gwblhawyd, gyda'r ffigur terfynol yn 203. Dyma gynnydd helaeth o gymharu â'r 52 a gwblhawyd yn ystod y trydydd cyfnod monitro. Y gofyniad blynyddol ar gyfer anheddau a gwblheir ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw 174 (+/- 20%); felly mae'r Awdurdod wedi gostwng yn is oddi mewn i'r gofyniad blynyddol yn y pedwerydd cyfnod monitro.

Eto mae'r dangosydd **dwysedd anheddau'n** awgrymu nad yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu'n llawn hyd yma, am nad yw pob safle'n cael ei ddatblygu ar gyfradd o 30 o anheddau yr hectar. Wrth gwrs, nodir fod hyblygrwydd yn y polisi sy'n caniatáu datblygiadau ar ddwysedd is na 30 o anheddau yr hectar ond, er hynny, byddai'n ddoeth cynnal rhywfaint o ymchwil pellach i benderfynu ar y rhesymau penodol dros ganiatáu lefel is o ddwysedd anheddau. Dangosodd canlyniad yr ymchwil hwn, unwaith eto, bod y polisi'n cael ei weithredu'n briodol. Ym mhob achos, gellid cyfiawnhau'r ddarpariaeth dwysedd is gyda'r cyfyngiadau amgylcheddol ar y safle a/neu'r patrymau lleol mewn perthynas â llunwedd a dwysedd.

O ran canran y **targed cyfraniad Tai Fforddiadwy**, mae data'r Gofrestrfa Tir, ynghyd â data'r Pecyn Cymorth Arfarnu Datblygiadau'n awgrymu cynnydd cyffredinol arwyddocaol ym mhrisiau'r tai yn ardal Blaenau'r Cymoedd, er bod gostyngiad wedi bod yn 2015/16. Yn unol â hynny, byddai'n ddoeth i'r Awdurdod ystyried profion hyfywedd ychwanegol, gyda'r bwriad o addasu'r targedau cyfraniad Tai

Fforddiadwy (os yw hynny'n briodol) yn ystod yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Dylid nodi bod y gwaith hwn wedi dechrau gan fod yr Awdurdod wedi comisiynu Dr Andrew Golland i gynnal y profion hyfywedd angenrheidiol ar gyfer Ardal y Parc Cenedlaethol cyfan. Mae'r wybodaeth hon yn debygol o gael ei chyflwyno i'r Awdurdod ar ffurf drafft erbyn mis Gorffennaf 2018.

Nid oedd gofynion y dangosydd **'datblygiadau ag effaith niweidiol ar asedau treftadaeth'** yn cael eu bodloni'n llawn yn ystod yr Ail Gyfnod Monitro. Yn unol â hynny, roedd angen ymchwiliad pellach i ganiatâd cynllunio cyfeirnod 15/12267/FUL a Chaniatâd Hysbysebu 15/12591/ADV i ganfod amgylchiadau penodol pob achos. Penderfynwyd yn y ddau achos nad oedd angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol i swyddogion mewn perthynas â'r dangosydd hwn, gan fod y problemau a godwyd yn fân iawn. Ni fu unrhyw broblemau pellach mewn perthynas â'r dangosydd hwn yn y ddau gyfnod monitro dilynol.

### ***Ymchwil Polisi'n Codi o Gyfnod Monitro 2017/18***

O ganlyniad i'r pedwerydd cyfnod monitro, penderfynir bod angen ymchwil polisi parhaus mewn perthynas â'r dangosyddion canlynol:

- Nifer yr unedau a ddyfarnwyd ac a gwblhawyd ym mhob haen anheddiad
- Pob cais sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio i sicrhau dwysedd o 30 o anheddau yr hectar

Argymhellir bod y monitro cysylltiedig â lleoliad yr anheddau yn yr hierarchaeth anheddau'n parhau ac y cysylltir â pherchnogion tir safleoedd a ddyrannwyd (heb ganiatâd cynllunio) yn y Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol, gyda'r bwriad o gael gwybod beth yw'r amserlenni tebygol ar gyfer datblygu eu safleoedd. Fodd bynnag, nodar Awdurdod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r seilwaith carthffosiaeth a dŵr ym Mhrif Anheddiad Allweddol Aberhonddu. Yma, rhagwelir y caiff y problemau sylw pellach gyda chwblhau Rhaglen Rheoli Asedau Dŵr Cymru Welsh Water ym mis Mawrth 2018.

Hefyd mae un o'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi dwysedd anheddau'n cael ei weithredu'n llawn yn ôl yr angen. Fodd bynnag, rhaid nodi bod hyblygrwydd yn y polisi sy'n galluogi i ddatblygiad gael ei gynnal ar ddwysedd is na 30 o anheddau yr hectar. Yn unol â hynny, mae angen ymchwil pellach i benderfynu ar y rhesymau penodol dros ganiatáu lefel is o ran dwysedd anheddau. Dangosodd ymchwil blaenorol i'r polisi hwn (o ganlyniad i roi caniatâd ar gyfer llai'r na'r trothwy o 30 o anheddau yr hectar) bod y polisi, mewn gwirionedd, yn cael ei weithredu fel roedd angen.

### ***Canllawiau Cynllunio Atodol Ychwanegol***

Fel y cyfeiriwyd uchod, gan ddiybnu ar ganlyniadau'r ymchwil polisi perthnasol i **ddwysedd anheddau**, efallai y bydd yn ofynnol datblygu canllawiau atodol perthnasol. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r ymchwil polisi hyd yma'n awgrymu bod y polisi wedi cael ei weithredu'n briodol. Er hynny, gall y farn hon newid ymhellach yn dilyn ymchwil polisi ychwanegol.

Nid oes unrhyw ganllawiau cynllunio atodol ychwanegol yn cael eu hargymell o ganlyniad i ddangosyddion cyfnod monitro 2017-18.

Cwblhawyd y Canllaw Dylunio Deiliaid Tai, Rhandiroedd a Chynllun Cymunedol Crucywel a'u cymeradwyo gan yr Aelodau ar gyfer eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol yn ystod y cyfnod monitro hwn.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol ychwanegol wedi'u trefnu o ganlyniad i berfformiad yn erbyn y dangosyddion monitro. Serch hynny, mae gwaith wedi dechrau ar y canlynol:

- Cynllun Tref Aberhonddu
- Cynllun Tref Talgarth

### Hyfforddiant Swyddogion ac Aelodau

Ni chynigiwyd unrhyw hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion ac Aelodau o ganlyniad i gyfnod monitro 2016-17. Mae hyn yn wir hefyd am y cyfnod monitro hwn, ar wahân i'r hyfforddiant posibl mewn perthynas â dwysedd anheddau'n codi o ymchwil pellach.

### Atodiadau

#### 1. Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018

<http://www.beacons-mpa.gov.uk/planning/draft-strategy-and-policy/joint-housing-land-availability-study-jhlas/>

#### 2. Dangosyddion Ychwanegol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd

*Sylwer, yn y cyfarfod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 21<sup>ain</sup> Medi 2018, tynnodd yr Aelodau sylw at y problemau gyda data a gofnodir yn yr Atodiad hwn. Cesglir y data o Adroddiad Cyflwr y Parc (2014) sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Bydd y data'n cael eu diweddarw wrth i wybodaeth fanylach ddod ar gael.*

Pwnc AC	Dangosyddion	Canfyddiadau	Tuedd Gyffredinol
Ffactorau'n ymwneud â'r hinsawdd	Cyflwr SoDdGAoedd Biolegol	<p>Mae 65 SoDdGA biolegol o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ac mae cyfanswm o 163 o nodweddion biolegol unigol (Cyfoeth Naturiol Cymru 2014).</p> <p>Yn 2006, roedd 82 o nodweddion biolegol o bwys yn y Parc Cenedlaethol. Roedd 24(29%) o'r rhain mewn cyflwr ffafriol, roedd 45 (55%) mewn cyflwr anffafriol, roedd un (1%) wedi'i ddinistrio'n rhannol a doedd dim gwybodaeth am gyflwr 12 (15%). O'r 45 o nodweddion biolegol a oedd mewn cyflwr anffafriol, roedd 11 (24%) yn gwella, roedd 11 (24%) yn dirywio a doedd dim gwybodaeth berthnasol am y 23 (50%) arall.</p> <p>Yn 2014, roedd 163 o nodweddion biolegol o bwys yn y Parc Cenedlaethol. Roedd 93 (57%) mewn cyflwr ffafriol, roedd 51 (31%) mewn cyflwr anffafriol a doedd dim gwybodaeth am gyflwr 19 (12%).</p> <p>Mae canran y nodweddion mewn cyflwr anffafriol wedi gostwng yn sylweddol ac mae canran y nodweddion mewn cyflwr ffafriol wedi cynyddu'n sylweddol, sy'n dangos tuedd positif iawn ers 2006. <b>Fodd bynnag</b>, dylid nodi bod mwy o nodweddion biolegol mewn cyflwr anffafriol yn 2014 nag yn 2006, yn rhannol gan</p>	Positif

		fod cyfanswm y nodweddion biolegol wedi dyblu ers 2006. Serch hynny, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod y duedd o ran canran y cyfeirir ati uchod yn parhau. (SOPR)	
	Ansawdd dŵr	<p>Ar hyn o bryd, mae nifer sylweddol o afonydd nad oes ganddynt statws amgylcheddol da, yn ôl Cyfarwydddeb y Fframwaith Dŵr. Mae'r holl afonydd y mae angen eu hasesu i bennu eu statws cemegol mewn cyflwr da.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gan fwyafrif helaeth y cyrff dŵr daear yn y Parc statws cemegol da ac ychydig sydd mewn cyflwr gwael. Mae gan yr holl gyrff dŵr daear yn y Parc statws meintiol da. O'r 19 llyn yn y Parc, mae 11 mewn cyflwr da (58%) ac mae 8 (42%) mewn cyflwr cymedrol. Nid oes angen asesu'r llynnoedd i bennu eu statws cemegol.</p>	Niwtral
	Ansawdd aer	<p>Mae'r data ar gyfer 2010 yn dangos rhwng 10 a 15 ug/m<sup>3</sup> o ronynnau (PM<sub>10</sub>). Mae hyn islaw terfynau Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 ar gyfer PM<sub>10</sub>, sef llai na 40ug/m<sup>3</sup>. Nid oes ardaloedd rheoli ansawdd aer yn y Parc Cenedlaethol.</p>	Niwtral
	Faint o ddŵr sydd ar gael	<p>Mae Strategaethau Rheoli Ardal Dalgylch ar waith ar gyfer holl ardal y Parc Cenedlaethol. Mae dŵr ar gael i'w dynnu yn y rhan fwyaf o'r rhan honno o Sir Gaerfyrddin sydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Diffinnir y rhan fwyaf o ardal y Parc Cenedlaethol fel ardal lle tynnwyd gormod o ddŵr ohoni, a nodir Nad Oes Dŵr ar Gael mewn rhai ardaloedd neu fe'u diffinnir fel ardaloedd lle tynnwyd gormod o Ddŵr. Nid yw'r data hyn wedi newid ers dechrau oes y cynllun.</p>	Niwtral
	Geoamrywiaeth	<p>Ar hyn o bryd, mae 76 o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol yn y Parc, er mai dim ond 11 oedd ar ddechrau'r Cynllun. Dyma gyflwr y safleoedd:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>3% - Gwael</li> <li>5% - Dirywio</li> <li>9% - Sefydlog</li> <li>67% - Da</li> <li>16% - Rhagorol</li> </ul> <p>Yn 2006, roedd pob un o'r 11 safle mewn cyflwr da (ffynhonnell data SOPR).</p>	Niwtral
	Rhywogaethau Cam Un (Cynefin)	<p>Roedd mwy na hanner (55%) y cynefinoedd glawelltir yn laswelltir a oedd wedi'i wella. Roedd ychydig dros 1% o'r Parc Cenedlaethol yn</p>	Niwtral

		<p>amgylchedd adeiledig. Mae 57,347 hectar o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o dan berchnogaeth statudol. O blith y 57, 347 hectar yma, mae 39% wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), mae 33% yn eiddo i'r Parc Cenedlaethol, 15% yn eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru, 7% yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 4% yn Ardal Gadwraeth Arbennig, 2% yn Warchodfa Natur Arbennig ac mae llai nag 1% yn eiddo i Ymddiriedolaeth Natur Brycheiniog. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi defnyddio delweddau lloeren yn ddiweddar i ddiweddarau a rhyddhau Cam 1 y gwaith o fapio cynefinoedd Cymru. Casglwyd y data dros gyfnod o flynyddoedd. Mae'n awr yn bosibl dadansoddi newidiadau mewn cynefinoedd dros gyfnod cyhyd ag y bod rhai cafeatau penodol yn cael eu hystyried wrth gymharu'r data. Mae data diweddaraf Cam 1 yn dangos mai glaswelltir yw 57% o'r prif gynefinoedd drwy'r Parc Cenedlaethol, sef gostyngiad o oddeutu 5%. Coetir yw 17% o'r prif gynefinoedd, sef cynnydd o oddeutu 3%. Rhostir yw 10% o'r prif gynefinoedd, sef gostyngiad o 1% (ffynhonnell data: SOPR).</p>	
	Henebion Rhestredig	<p>Yn 2006, roedd 268 o henebion rhestredig yn y Parc. O blith y rhain, roedd 95.4% mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol (257). Yn 2014, roedd 357 o henebion rhestredig yn y Parc - cynnydd o 89 ers 2006. O blith y 357 o henebion rhestredig, roedd 95.5% mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol. Yn 2014, roedd y ganran a oedd mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol ychydig yn is (0.4%). Er nad yw'r ffigur hwn yn fawr, mae'n werth nodi bod 89 o henebion wedi'u rhestru ers 2006, sy'n golygu bod mwy o henebion rhestredig mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol yn awr (ffynhonnell: SOPR).</p>	Positif
	Adeiladau Rhestredig sy'n wynebu risg	<p>Yn 2006, roedd 1,711 o adeiladau rhestredig. O blith y rhain roedd 11% yn wynebu risg. Roedd nifer yr Adeiladau Rhestredig wedi cynyddu i 1,950 erbyn 2014. O blith y rhain, roedd 6.6% yn wynebu risg. Mae nifer yr adeiladau rhestredig wedi cynyddu felly, tra bo'r nifer sy'n wynebu risg wedi gostwng ers dechrau cyfnod y cynllun. Yn 2016, roedd nifer yr adeiladau rhestredig wedi cynyddu i 1951, gyda 5.4% o'r rhain yn wynebu risg. (ffynhonnell y data SOPR a CADW)</p>	Positif
	% y tirweddau hanesyddol ag	<p>Mae gan 100% o'r Ardaloedd Tirwedd Hanesyddol arfarniad cyfredol o'u nodweddion.</p>	Niwtral

	arfarniad cymeriad cyfredol		
	Gwarchodaeth archeolegol	Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, mae 191 o geisiadau cynllunio wedi cael eu sgrinio am eu heffaith bosibl ar adnoddau archeolegol. O ganlyniad, roedd angen ymgymryd â gwaith i ddiogelu archaeoleg y Parc Cenedlaethol yn achos 142 o geisiadau.	Niwtral
	Signal a chyflymder band eang	Mae cynllun Cyflymu Cymru yn cynnwys y rhan fwyaf o Ardal y Parc Cenedlaethol. Erbyn diwedd y prosiect, disgwylir y bydd band eang cyflym ar gael i bob un o'r cymunedau.	Niwtral
	Teithio i'r gwaith	Mae'r ONS yn cyhoeddi data'n ymwneud â theithio i'r gwaith ar sail canlyniadau Cyfrifiad 2011. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys y 5 ardal Teithio i'r Gwaith a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Abertawe</li> <li>- Llanelli</li> <li>- Aberhonddu</li> <li>- Merthyr Tudful</li> <li>- Henffordd</li> </ul>	Niwtral
	Hyd a chyflwr hawliau tramwy cyhoeddus	Yn 2006, roedd cyfanswm o 1,983Km o hawliau tramwy cyhoeddus yn ardal y Parc. Erbyn 2013, roedd y cyfanswm wedi cynyddu i 2,009Km. Roedd canran yr hawliau tramwy a oedd yn hawdd eu defnyddio ychydig yn is yn 2013 nag yn 2006, ond roedd 26km yn rhagor o hawliau tramwy. Mae nifer yr hawliau tramwy sy'n hawdd eu defnyddio wedi codi ers 2010/2011 a disgwylir i'r duedd hon barhau. At ei gilydd, mae cyflwr cyffredinol y dangosydd hwn yn dda.	Positif
	Llwybrau trafniadaeth gyhoeddus yn y Parc	Mae 10 llwybr bws lleol yn gweithredu yn y Parc Cenedlaethol. <p>24 – Ponsticill-Merthyr Tudful</p> <p>30- Brynmawr- Blaenafon-Pont-y-pŵl-Casnewydd</p> <p>39-Aberhonddu-Y Gelli Gandryll – Kingstone – Henffordd</p> <p>80- Aberhonddu –Llanymddyfri-Caerfyrddin</p> <p>X75-Merthyr Tudful- Hirwaun- Glyn-nedd-Castell-nedd-Abertawe</p> <p>T4- Y Drenewydd-Llandrindod-Aberhonddu-Merthyr Tudful-Caerdydd</p> <p>X4- Henffordd-Y Fenni-Merthyr Tudful-Caerdydd</p> <p>X33- Y Fenni-Pont-y-pŵl-Cwmbrân-Caerdydd</p> <p>X43-Aberhonddu-Crucywel-Y Fenni</p> <p>X63-Aberhonddu-Ystradgynlais-Castell-nedd-Abertawe</p> <p>7 – Cwmaman – Penderyn</p>	Niwtral

	Llwybrau beicio yn y Parc	Mae 2 Llwybr Beicio Cenedlaethol pellter hir yn croesi PCBB - Llwybr Beicio Cenedlaethol 8, Llwybr Taf - Llwybr Beicio Cenedlaethol 42, Lôn Las Cymru	Niwtral																									
	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	Yn bennaf mae ardal y Parc Cenedlaethol yn cynnwys 50% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lleiaf difreintiedig. Mae lefelau amddifadedd ardaloedd Blaenau'r Cymoedd yn uwch yn gyffredinol.	Niwtral																									
	Ystadegau Troseddu	Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd ar lefel y Parc Cenedlaethol. Er hynny, ymddengys fod yr ystadegau troseddu'n is yn y Parc o'u cymharu â gweddill Cymru.	Niwtral																									
	Gwybodaeth am yr Iaith Gymraeg	Yn Nhabl 1 isod mae data a gasglwyd ar lefel Ward yng nghyfrifiad 2001 a 2011.	Negatif																									
	Bodddhad Ymwelwyr	Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Grŵp Marchnata a Chydgyssylltu Bannau Brycheiniog ganlyniadau Arolwg Ymwelwyr Blynyddol Bannau Brycheiniog. Mae rhagor o wybodaeth am yr Arolwg i'w chael yma. <a href="http://www.beacons-npa.gov.uk/communities/tourism-new/tourism-facts-and-figures-1/">http://www.beacons-npa.gov.uk/communities/tourism-new/tourism-facts-and-figures-1/</a>  Yn gyffredinol, cafodd ymwelwyr brofiad da a dywedodd eu hanner bron (48%) iddynt gael profiad gwell na'r disgwyl a dywedodd 51% fod eu profiad cystal â'r disgwyl. Dim ond 1% ddywedodd nad oedd y profiad a gawsant cystal â'r disgwyl. Cafwyd canlyniadau tebyg ar gyfer Cymru yn gyffredinol yn arolwg ymwelwyr Croeso Cymru (49% yn well na'r disgwyl a 49% cystal â'r disgwyl). Prin yw'r gwahaniaeth rhwng profiadau'r rhai sy'n ymweld am y diwrnod ac sy'n aros dros nos. Ymwelwyr newydd roddodd y sgôr uchaf - dywedodd 56% ohonynt iddynt gael profiad gwell na'r disgwyl. Mae hyn yn galonogol gan fod posibilrwydd y byddant yn dychwelyd. Mae ymwelwyr o rai ardaloedd penodol yn rhoi sgôr ychydig yn uwch nag eraill. Dywedodd dros hanner yr ymwelwyr o Lundain a De Ddwyrain Lloegr (53%) ac o dramor (52%) iddynt gael profiad gwell na'r disgwyl.	Niwtral																									
	Safonau addysg	Dosbarthwyd yr ysgolion sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol fel a ganlyn yn ôl y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion:- <table border="1"> <thead> <tr> <th>Categori</th> <th>2014</th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>2017</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Coch</td> <td>3%</td> <td>2%</td> <td>0%</td> <td>0%</td> </tr> <tr> <td>Oren</td> <td>18%</td> <td>23%</td> <td>5%</td> <td>26%</td> </tr> <tr> <td>Melyn</td> <td>50%</td> <td>41%</td> <td>46%</td> <td>22%</td> </tr> <tr> <td>Gwyrdd</td> <td>29%</td> <td>34%</td> <td>49%</td> <td>52%</td> </tr> </tbody> </table>	Categori	2014	2015	2016	2017	Coch	3%	2%	0%	0%	Oren	18%	23%	5%	26%	Melyn	50%	41%	46%	22%	Gwyrdd	29%	34%	49%	52%	Positif (Mae'r % yn y Gwyrdd wedi cynyddu 3% i gyd. Mae'r % yn y melyn wedi gostwng 24%. Mae'r ganran yn yr oren wedi cynyddu 21%, a'r ganran yn y coch
Categori	2014	2015	2016	2017																								
Coch	3%	2%	0%	0%																								
Oren	18%	23%	5%	26%																								
Melyn	50%	41%	46%	22%																								
Gwyrdd	29%	34%	49%	52%																								

			wedi parhau'n 0.)
	Nifer y ffermydd a'r ffermwyr	Mae'r data o 2014 yn dangos bod 1,445 o swyddi'n cael eu darparu ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Fodd bynnag, mae'r sector hwn yn dirywio yn y Parc Cenedlaethol. Yn 1991, roedd swyddi ym maes amaethyddiaeth a physgota'n cyfrif am 10% o'r holl swyddi yn y Parc Cenedlaethol. Erbyn 2001, roedd y ganran wedi gostwng i 7.3% ac erbyn 2011 roedd y sector hwn yn cyfrif am 5.9% o fathau o gyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol. (Ffynhonnell SOPR)	Negatif
	Gwariant Twristiaid	Roedd y Gwariant Twristiaeth yn 2009 yn £197 miliwn, gan gynyddu i £216 miliwn erbyn 2013 a £247 miliwn erbyn 2016 (data STEAM).	Positif

**Tabl 1 Gwybodaeth am yr Iaith Gymraeg yn y Parc Cenedlaethol**

Mae'r tabl hwn yn dangos y ffigurau yng Nghyfrifiad 2001 a 2011 sy'n dangos nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol, yn ôl ward etholaethol. Gan nad yw pob ward yn gyfan gwbl o fewn ardal y Parc Cenedlaethol, rhoddir canran y boblogaeth ym mhob ward sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol hefyd. Yn y wardiau hynny sydd wedi'u lliwio'n goch, mae'r nifer sy'n siarad Cymraeg ac sydd â gwybodaeth am y Gymraeg wedi gostwng, ac yn y wardiau sydd wedi'u lliwio'n wyrdd, bu cynnydd yn y nifer sydd â gwybodaeth am y Gymraeg/sy'n gallu cyfathrebu yn y Gymraeg.

Gwybodaeth am yr Iaith Gymraeg		2001		2011	
Enw'r Ward	Canran y boblogaeth oddi mewn i'r ffin	Canran gyda rhywfaint o wybodaeth am y Gymraeg	Canran yn gallu siarad, ysgrifennu a darllen y Gymraeg	Canran gyda rhywfaint o wybodaeth am y Gymraeg	Canran yn gallu siarad, ysgrifennu a darllen y Gymraeg
Abercraf	3%	64.0	30.5	58.89	26.28
Bwlch	100%	16.4	7.4	18.23	7.80
Crucywel a Chwm Grwyne	100%	16.6	8.2	14.35	6.39
Cwmtwrch	0%	70.9	39.7	65.12	30.70
Honddu Isaf/Llanddew (Felinfach)	3%	25.0	10.5	21.48	9.85
Gwernyfed a Llanigon	36%	15.4	6.9	14.87	6.81
Y Gelli Gandryll	100%	12.3	5.5	14.39	5.82
Llangadog	100%	16.6	7.2	17.92	5.91
Llangors	100%	23.0	10.7	19.63	8.52
Llangynidr	100%	22.9	10.5	18.24	8.59
Maescar/Llywel, Crai	100%	42.6	20.4	40.16	18.09
Aberhonddu Dewi Sant	100%	22.4	9.4	20.65	9.15
Aberhonddu Sant Ioan	100%	25.2	12.9		
Aberhonddu Santes Fair	100%	21.0	9.8		
Talgarth	96%	19.7	7.0	20.07	8.47

Talybont, Glyntarell, Llanfrynach	93%	23.2	11.2	22.15	8.32
Tawe-Uchaf/Fellte	57%	49.4	21.4	42.97	16.24
Yscir, Trallong,	29%	29.6	12.3	27.55	12.33
Ystradgynlais Wledig	1%	66.7	31.7	57.23	24.61
Garnant Cwmaman	3%	79.4	55.0	69.47	41.61
Glanaman	1%	77.6	52.3	70.47	41.80
Dyffryn Cennen (Llandeilo)	13%	70.0	42.9	66.54	36.82
Llanymddyfri, Llanfair	5%	60.2	35.7	54.07	29.38
Llandybie	Llai nag 1%	75.2	46.2	71.41	38.78
Llangadog,Llanddeusant,Myddfai	45%	69.0	51.6	65.16	43.81
Cwarter Bach	6%	83.3	61.7	76.62	51.25
Rhigos (Hirwaun)	49%	32.5	13.9	29.59	12.35
Faenor	12%	21.3	7.8	18.05	6.79
Brynmawr	1%	14.8	6.8	11.86	5.75
Pont-y-pŵl New Inn	0%	13.5	7.7	11.91	5.83
Gogledd y Fenni (Cantref)	3%	15.0	8.0	13.41	6.24
Crucornau	36%	12.0	7.3	14.29	7.45
Goetre Fawr	10%	14.3	8.0	15.71	8.23
Llanelli	100%	15.0	7.6	14.23	6.49
Llanfoist Fawr	17%	15.2	7.5	15.85	8.51
Llanofer	3%	12.2	6.5	12.18	6.45
Llanfoist Llanwenarth Uchaf	100%	14.3	7.1	13.61	6.36
Llantilio Pertholau Mardy	13%	14.2	7.4	16.27	7.61

### 3. Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol: Adroddiad ar Gyflwr y Parc

<http://www.beacons-npa.gov.uk/the-authority/who-we-are/npmp/state-of-the-park-report-2/>